**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd yn hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideo-gynadledda ar 28 Medi 2023**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Endaf Edwards (Cadeirydd), y Cynghorwyr Euros Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Amanda Edwards, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Chris James, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan a Mark Strong

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Wyn Thomas (Aelod Cabinet) a Bryan Davies (Arweinydd y Cyngor) ynghyd â Mrs Cathryn Charnell-White (Aelod Cyfetholedig â hawliau pleidleisio)

**Y Swyddogion a oedd yn bresennol:** Mr Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Mrs Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes a'r Prif Swyddog Addysg, Mr Clive Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a'r Dirprwy Brif Swyddog Addysg, Mr Gwion Dafydd, Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd, Gwasanaethau Ysgolion, Mr Gareth Lanagan, Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion, Ms Mair Hughes, Pennaeth, Ysgol Penglais, Mr Gareth Hughes, Cydlynydd y Cwricwlwm Ôl-14, Mrs Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau, a Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau.

(10:00am-12:45pm)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Paul Hinge am na fedrai ddod i'r cyfarfod.

**2 Materion Personol**

Dymunwyd yn dda i Mrs Mary Davies a oedd yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch.

Estynnwyd llongyfarchiadau i'r cynllun 'Bwyd a Hwyl' a gynhaliwyd dros yr haf yn Aberystwyth.

**3 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Datgelodd y Cynghorwyr Endaf Edwards, Euros Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Amanda Edwards, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Chris James, Ann Bowen Morgan a Mark Strong fuddiant personol yn eitem 5 gan eu bod nhw i gyd yn llywodraethwyr ysgolion.

**4** **Canlyniadau TGAU a Safon Uwch 2023**
Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, sef y Cynghorydd Wyn Thomas, yr adroddiad a nododd na chynhaliwyd arholiadau allanol yn eu dull traddodiadol mewn ysgolion yn haf 2020 na haf 2021 oherwydd y pandemig COVID-19. Ar gyfer haf 2022, roedd Cymwysterau Cymru wedi penderfynu y byddai canlyniadau ar lefel genedlaethol yn adlewyrchu pwynt hanner ffordd rhwng canlyniadau haf 2019 a haf 2021. Felly, nid oedd modd cymharu canlyniadau 2023 â'r blynyddoedd blaenorol.

Adroddwyd y canrannau dros dro ar gyfer Ceredigion (byddai'r data swyddogol ar gael ar ddechrau mis Hydref).

**Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD:**

***Canlyniadau TGAU 2023***

Cymariaethau Cenedlaethol – Arholiadau Haf 2023 (TGAU CBAC yn unig)

| | **Ceredigion 2023** | **Cymru 2023** |
|---|---|---|
| Gradd A* - A | 24.8% | 21.7% |
| Gradd A* - C | 68.6% | 64.9% |
| Gradd A* - G | 97.2% | 96.9% |

Ystyriwyd nifer o ddangosyddion wrth arfarnu canlyniadau'n lleol. Roedd y rhain yn edrych ar raddau gorau disgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 11:

| **Dangosyddion** | **Diffiniad** | **Ceredigion 2023** |
|---|---|---|
| 5A*-C (LM) | Canran y disgyblion sydd wedi ennill 5 TGAU graddau A*-C (neu gyfwerth) gan gynnwys Iaith a Mathemateg / Rhifedd | 55.0% |
| 5A*-C | Canran y disgyblion sydd wedi ennill 5 TGAU graddau A*-C (neu gyfwerth) | 66.0% |
| 5A*-G | Canran y disgyblion sydd wedi ennill 5 TGAU graddau A*-G (neu gyfwerth) | 92.2% |
| 5A*-A | Canran y disgyblion sydd wedi ennill 5 TGAU graddau A*-A (neu gyfwerth) | 22.4% |
| Cymraeg | Canran y disgyblion sydd wedi ennill TGAU gradd A*-C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf | 70.1% |
| Saesneg | Canran y disgyblion sydd wedi ennill TGAU gradd A*-C mewn Saesneg Iaith | 62.3% |

| | | |
|---|---|---|
| Mathemateg | Canran y disgyblion sydd wedi ennill TGAU gradd A*-C mewn Mathemateg | 58.5% |
| Rhifedd | Canran y disgyblion sydd wedi ennill TGAU gradd A*-C mewn Mathemateg Rhifedd | 57.2% |
| Gwyddoniaeth | Canran y disgyblion sydd wedi ennill TGAU gradd A*-C mewn Gwyddoniaeth | 62.8% |

***Canlyniadau Safon Uwch 2023***

Cymariaethau Cenedlaethol – Arholiadau Haf 2023 (Safon Uwch CBAC yn unig)

| | **Ceredigion 2023** | **Cymru 2023** |
|---|---|---|
| Gradd A* - A | 37.5% | 34.0% |
| Gradd A* - B | 61.4% | Amherthnasol |
| Gradd A* - C | 82.5% | Amherthnasol |
| Gradd A* - E | 99.1% | 97.5% |

CYTUNWYD i nodi'r adroddiad er gwybodaeth a llongyfarch yr holl ddisgyblion a staff ar eu llwyddiannau.

**5 Y ddarpariaeth Addysg ol-16 mewn ysgolion**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, sef y Cynghorydd Wyn Thomas, yr adroddiad a rhoddodd Mr Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Mrs Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes a'r Prif Swyddog Addysg, a Mr Clive Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a'r Dirprwy Brif Swyddog Addysg, gyflwyniad PowerPoint a oedd yn amlinellu cynnwys yr adroddiad.

Adroddwyd bod y Cabinet wedi cytuno yn y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2022, y byddai'n amserol cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth ôl-16 yng Ngheredigion. Bwriad yr adolygiad oedd darparu dadansoddiad ac arfarniad o'r sefyllfa gyfredol o ran y ddarpariaeth ôl-16 yng Ngheredigion a nodi opsiynau cynaliadwy i'r dyfodol, ynghyd â'u manteision ac anfanteision posib.

Nod yr adolygiad oedd i:

- greu set o egwyddorion cytûn a oedd yn ddysgwr-ganolog
- gynnig ystod o opsiynau hygyrch a chynaliadwy gan sicrhau bod llais y dysgwyr, llywodraethwyr, rhieni, penaethiaid a swyddogion yr Awdurdod Lleol yn rhan annatod o'r broses
- sicrhau bod ystyriaeth lawn wedi ei rhoi i ganfyddiadau ac argymhellion adolygiadau cenedlaethol Estyn a chefndir polisi

presennol Llywodraeth Cymru gan gynnwys y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- rhoi ystyriaeth i wledigrwydd a goblygiadau ôl-troed carbon.

Yn ogystal, roedd cyd-destun ehangach i'r adolygiad hwn, sef:
- Penderfyniad Llywodraeth Cymru i sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) a fyddai'n gyfrifol, ymhlith materion eraill, am strategaeth, cyllido a goruchwylio'r sector addysg bellach, gan gynnwys colegau a chweched dosbarth ysgolion.
- Adroddiad Thematig Estyn ar Bartneriaethau Ôl-16 (Ionawr 2021).
- Y cyfleoedd a geid drwy Fargen Dwf Canolbarth Cymru, y Strategaeth Economaidd a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer anghenion a sgiliau gweithlu'r dyfodol a rôl ganolog y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn y broses o gasglu a dadansoddi'r wybodaeth.
- Yr angen i sicrhau cynnig galwedigaethol eang o ansawdd, ynghyd ag arlwy ehangach o bynciau Safon Uwch, a fyddai'n caniatáu i ddysgwyr ddilyn cyfuniadau gwahanol o bynciau ac arbenigo yn eu diddordebau, waeth ble maent yn byw yn y sir.
- Adroddiad Estyn – Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru (Hydref 2022).

Cytunwyd y dylid creu set o "egwyddorion cytûn a oedd yn ddysgwr-ganolog", er mwyn sicrhau bod llais y dysgwyr, llywodraethwyr, rhieni a phenaethiaid yn cael lle canolog yn yr adroddiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod 6 egwyddor wedi'u llunio, sef -
1) Dylid blaenoriaethu anghenion y dysgwyr dros unrhyw anghenion sefydliadol.
2) Dylid cynnal a gwella ymhellach y safonau cyffredinol uchel a welwyd yn ysgolion Ceredigion.
3) Dylid sicrhau gwell tegwch a chyfle cyfartal i bob dysgwr ar draws y sir o ran y cynnig, y cyngor ac arweiniad, gofal bugeiliol a llesiant, y gofynion teithio, y patrwm dysgu a'r mynediad at gefnogaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau cefnogaeth bwrpasol ac arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gan sicrhau continwwm addysg ar eu cyfer yn absenoldeb ysgol arbennig yn y Sir.
4) Dylid cryfhau'r cynnig yn y Gymraeg i fod o leiaf yn gyson â'r cynnig yn y Saesneg er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion a chyfrannu at weithlu a chymuned ddwyieithog.
5) Dylid sicrhau mynediad at ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol o safon uchel gan gynyddu argaeledd presennol cyrsiau galwedigaethol i ddisgyblion ymhob rhan o'r sir.
6) Dylid sicrhau bod llywodraethiant y ddarpariaeth ôl-16 yn hyrwyddo'r egwyddorion uchod, yn ystyried prosesau gwella ansawdd strategol, yn sicrhau bod gwariant yn cael ei gadw gymaint â phosib oddi mewn i'r gyllideb ôl-16 ac yn caniatáu gwneud penderfyniadau sydd yn rhoi ystyriaeth i gynaliadwyedd amgylcheddol ac ôl-troed carbon.

Darn allweddol o'r adolygiad oedd casglu barn grŵp eang o randdeiliaid. Anfonwyd arolygon allan i grwpiau allweddol, sef dysgwyr, rhieni / gofalwyr, athrawon a chyflogwyr a derbyniwyd cyfanswm o 1,306 o ymatebion gan yr

unigolion hyn. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfweliadau gyda chynrychiolwyr o ddarparwyr addysgol, yr awdurdod lleol a phartneriaid eraill.

Dadansoddwyd yr ymatebion a gosodwyd yr ymatebion o dan chwe phrif thema -

- Dewis eang
- Iaith
- Lleoliad
- Cysylltiadau byd gwaith
- Cydweithio rhwng ysgolion neu sefydlu canolfannau rhagori
- Athrawon a chyngor da, diduedd

Y cam nesaf oedd ystyried y sefyllfa gyfredol h.y. niferoedd disgyblion, y sefyllfa ariannol, yr ystod / dewis o bynciau a oedd ar gael i'r dysgwyr ac ati, a llunio opsiynau i'w hystyried a fyddai'n edrych ar fanteision ac anfanteision yng nghyd-destun yr egwyddorion.

Yn gryno, roedd yr adolygiad yn gofyn am farn ynghylch pedwar opsiwn posib, sef:

**Opsiwn 1:** Cynnal y Sefyllfa Gyfredol
**Opsiwn 2:** Datblygu'r Sefyllfa Gyfredol
Byddai darpariaeth ôl-16 yn parhau ar y 6 safle presennol. Byddai'r 6 Bwrdd Llywodraethol presennol yn parhau gyda'u rolau presennol o ran llywodraethiant hyd at 16 oed ond yn cytuno â'r Awdurdod Lleol i ffurfio Bwrdd Strategol a fyddai'n rheoli cyllideb ôl-16 yr Awdurdod, sicrhau trefniadau addas ar gyfer cyd-gynllunio'r cwricwlwm ac yna comisiynu'r ddarpariaeth gan yr ysgolion, e-sgol a phartneriaid eraill.
**Opsiwn 3**: Darpariaeth mewn rhai ysgolion
Byddai'r opsiwn hwn yn ddatblygiad o Opsiwn 2 uchod. Byddai'n golygu cau'r ddarpariaeth ôl-16 ar un neu fwy o safleoedd. Yna, megis yn Opsiwn 2, byddai'r Byrddau Llywodraethol hynny yn parhau gyda'u rolau presennol o ran llywodraethiant hyd at 16 oed ac yn cytuno â'r Awdurdod Lleol i ffurfio Bwrdd Strategol a fyddai'n rheoli cyllideb ôl-16 yr Awdurdod, sicrhau trefniadau addas ar gyfer cyd-gynllunio'r cwricwlwm ac yna comisiynu'r ddarpariaeth gan yr ysgolion, e-sgol a phartneriaid eraill. Byddai'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am fonitro ansawdd y ddarpariaeth ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod Lleol a'r darparwyr ar gyfer gwella.
**Opsiwn 4: Un Ganolfan**
Byddai'r opsiwn hwn yn cynnig newid mwy pellgyrhaeddol. Byddai'n golygu cau'r ddarpariaeth ôl-16 bresennol a sefydlu Canolfan Ragoriaeth, yn cynnwys ystod o bartneriaid, ar un neu fwy o safleoedd daearyddol addas. Byddai Corff Llywodraethol sydd yn annibynnol o'r ysgolion yn gyfrifol am y cyllid a'r cwricwlwm ac yn penodi nifer bach o staff craidd ar gyfer llywio a rheoli'r gwaith.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr ynghylch yr opsiynau a gyflwynwyd, CYTUNWYD i argymell i'r Cabinet y dylid cynnal Astudiaeth Ddichonolrwydd er mwyn rhoi ystyriaeth fanwl i Opsiwn 2 ac Opsiwn 4 yn yr Adolygiad, fodd bynnag dylid hefyd ystyried Opsiwn 3 pe na bai'r wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer Opsiwn 2 a 4 yn hyfyw.

**6** **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion**

CYTUNWYD i gadarnhau bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor yn gywir.

**Materion yn Codi**

Eitem 8 - Adroddwyd y byddai’r Ffrwd Waith Sicrhau Tegwch i Bob Disgybl yn ymweld â Chwrtnewydd ar 20 Hydref 2023. Rhoddwyd gwahoddiad i holl Aelodau’r Pwyllgor fynd hefyd.

**7** **I ystyried Blaenraglen Waith Ddrafft**

Cytunwyd i nodi’r Flaenraglen Waith ddrafft fel y’i cyflwynwyd, yn amodol ar nodi’r canlynol:-
(i) Byddai adroddiad diweddaru ynghylch y cymwysterau 14-16 yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf; a
(ii) Byddai’r diweddariad a geir bob chwe mis ynghylch yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn cael ei gyflwyno hefyd.

**8** **Unrhyw Fusnes Arall**

CYTUNWYD y dylid anfon llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru yn nodi pryderon ynghylch y toriadau termau real sy’n debygol o ddigwydd i gyllideb y Cyngor Sir ar gyfer 2024/25 a’r effaith ar y gwasanaeth addysg ac ysgolion y sir yn benodol.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar Dydd Llun, 27 Tachwedd 2023**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________